OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 1911 (Cy.154) (C.83)

ARCHWILIO CYHOEDDUS, CYMRU A LLOEGR

Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Cychwyn Rhif 3) 2005

Wedi'i wneud - - 12 Gorffennaf 2005

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 73 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Cychwyn Rhif 3) 2005.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

(3) Mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni, oni nodir yn wahanol, yn gyfeiriadau at adrannau o'r Ddeddf ac Atodlenni iddi.

Darpariaethau sy'n dod i rym ar 20 Gorffennaf 2005

2. Daw darpariaethau'r Ddeddf a bennir yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn i rym at bob diben ar 20 Gorffennaf 2005.

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**).

D. Elis-Thomas
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

12 Gorffennaf 2005

(**1**) 2004 p.23.
(**2**) 1998 p.38.

YR ATODLEN Erthygl 2

Darpariaethau sy'n dod i rym ar 20 Gorffennaf 2005

Is-adrannau (1) i (5) o adran 54(**3**).

Adran 54A(**4**).

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn dod â'r darpariaethau hynny yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ("y Ddeddf") nad ydynt eisoes mewn grym i rym ar 20 Gorffennaf 2005 yng Nghymru a Lloegr.

Y darpariaethau yw is-adrannau (1) i (5) o adran 54, ac adran 54A o'r Ddeddf. Mae adrannau 54 a 54A ill dwy yn rheoleiddio datgelu gwybodaeth.

Mae adran 54 o'r Ddeddf yn gymwys i bersonau nad ydynt yn awdurdodau cyhoeddus at ddibenion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("Deddf 2000"), ac nad ydynt yn gweithredu ar eu rhan. Mae'n cyfyngu ar yr amgylchiadau pryd y caiff y personau hynny ddatgelu gwybodaeth benodol a geir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, neu archwilydd a benodir ganddo o dan adran 13 o'r Ddeddf ("archwilydd").

Yr wybodaeth dan sylw yw gwybodaeth a geir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, neu archwilydd, wrth arfer ei swyddogaethau o dan:

— Rhan 2 o'r Ddeddf;

— Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 (swyddogaethau o ran y drefn gwerth gorau ar gyfer llywodraeth leol); neu

— adran 145C o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1988 (a fewnosodwyd gan adran 5 o'r Ddeddf) sy'n ymdrin ag astudiaethau sy'n ymwneud â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru.

Mae'r cyfyngiadau yn adran 54 yn gweithredu drwy waharddiad cyffredinol ar ddatgelu, yn ddarostyngedig i eithriadau eang iawn, a roddir yn is-adran (2). Datgelu at ddibenion unrhyw swyddogaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru, neu archwilydd, o dan Ran 2 o'r Ddeddf neu Ran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 yw un o'r eithriadau.

Os datgelir gwybodaeth heblaw o dan un o'r eithriadau yn is-adran (2), mae'n bosibl y bydd y person sy'n datgelu yn agored i gael ei garcharu am ddwy flynedd ac/neu ddirwy.

Mae adran 54A yn gymwys i bersonau sy'n awdurdodau cyhoeddus at ddibenion Deddf 2000 neu'n gweithredu ar eu rhan. Caiff y personau hyn ddatgelu gwybodaeth y byddai adran 54 yn gwahardd personau eraill rhag ei datgelu. Yr unig amgylchiad pryd y mae'n anghyfreithlon i awdurdod cyhoeddus o dan Ddeddf 2000, neu berson sy'n gweithredu ar ran awdurdod cyhoeddus o'r fath, ddatgelu'r wybodaeth honno yw pryd y byddai'r datgelu yn debygol o ragfarnu perfformiad effeithiol swyddogaeth statudol gan berson o'r fath.

(**3**) Diwygiwyd adran 54 gan Orchymyn Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Llacio'r Cyfyngiad ar Ddatgelu) 2005 (O.S. 2005/1018), sydd, o dan erthygl 1(2) ohono, yn dod i rym yn syth cyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

(**4**) Mewnosodwyd adran 54A yn y Ddeddf gan Orchymyn Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Llacio'r Cyfyngiad ar Ddatgelu) 2005 (O.S. 2005/1018), sydd, o dan erthygl 1(2) ohono, yn dod i rym yn syth cyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.